



FFURFLEN ADRODDIAD BLYNYDDOL YR ARHOLWR ALLANOL

I'ch helpu chi i gwblhau'r Adroddiad hwn trowch at y *Ffurflen Adroddiad Blynyddol – Canllaw i Arholwyr Allanol*. Mae'r Canllaw a'r Ffurflen hon ar gael yn:

<http://www.caerdydd.ac.uk/regis/ifs/exex/rep/index.html>. Mae ffurflenni gwybodaeth am ffioedd a hawlio ar gael yn:

<http://www.caerdydd.ac.uk/regis/ifs/exex/fees/index.html> .

	I'w lenwi gan yr Arholwr Allanol:		
Enw'r Arholwr Allanol:	Dr Elain Price		
Sefydliad Cartref / Cyflogwr yr Arholwr Allanol:	Adran Cyfryngau, Coleg y Celfyddydau a'r Dyniaethau, Prifysgol Abertawe		
Y Rhaglen a / neu'r Pynciau sy'n cael sylw yn yr Adroddiad hwn:	Newyddiaduraeth – modiwlau Yr Ystafell Newyddion 1 (MC2617) ac Yr Ystafell Newyddion 2 (MC2618)		
Y Flwyddyn Academaidd / Cyfnod sy'n cael sylw yn yr Adroddiad hwn:	2015-16	Dyddiad yr Adroddiad:	20 Gorffennaf 2016

Gofynnir i'r Arholwr Allanol ateb yn y manau a ddarperir. Estynnwch y manau hynny os bydd angen. **Sylwch y caiff y Ffurflen hon ei chyhoeddi ar-lein.**

1. Strwythur y Rhaglen

Dim ond dau fodiwl yr oeddwn yn ei arholi eleni, ac felly nid oes modd rhoi sylw ar sut y mae'r modiwlau yma yn eistedd o fewn y ddarpariaeth ehangach yn yr Ysgol. Er hynny, roedd hi'n dda iawn gweld cynnydd yn y dysgu cyfrwng Cymraeg ers y llynedd, a chlwestwr da o fyfyrwr yn dilyn y modiwlau, gyda rhai yn dilyn y ddau. Yn unol a'm hargraffiadau o'r ddarpariaeth y llynedd roedd hi'n braf iawn gweld y cyswllt agos gyda'r diwydiant a'r teimlad Cymreig a geid i'r pynciau a drafodid a'r straeon a luniwyd gan y myfyrwr. Rwy'n argyhoeddedig i'r myfyrwr gael profiadau gwerth chweil ar y modiwlau hyn.

O ran strwythur y modiwlau, roedd nifer o elfennau tebyg i'r ddau – yn enwedig o ystyried y tasgau asesu. Er hyn roedd testunau y traethodau a'r elfennau atodol amrywiol i'r tasgau newyddiadurol (e.e. cyflwyno lluniau, a goblygiadau hynny) yn darparu amrywiaeth, sgiliau a gwybodaeth newydd i'r myfyrwr a oedd yn dilyn y ddau fodiwl.

Er y tebygrwydd, i'r myfyrwr hynny a ddilynai'r ddau fodiwl roedd yr elfennau tebyg yn eu galluogi i weld cynnydd yn eu sgiliau ac yn eu dealltwriaeth o'r maes, ac roedd hyn yn amlwg iawn yng nghanlyniadau ambell fyfyrwr. Teimlaf er hynny y gellid

cyflwyno mwy o wahaniaethau er mwyn sicrhau bod y myfyrwyr hynny sydd yn dilyn y ddau fodiwl yn dysgu amrediad o sgiliau gwahanol. Un enghraifft a ellid ei ystyried ydi bod un modiwl yn canolbwyntio ar newyddiaduraeth i'r we a'r llall i brint, radio neu deledu, neu efallai gellid cyflwyno thema gwahanol i'r ddau fodiwl fel bod y myfyrwyr yn meithrin arbenigedd mewn newyddiaduraeth ar bynciau gwahanol.

2. Safonau Academaidd

Yn wahanol i'r llynedd, pan roeddwn yn teimlo bod y marcio ychydig yn hael, ni chefais y teimlad hwnnw eleni. Yn sicr roedd ambell farc yr oeddwn yn anghytuno ychydig â nhw, ond eithriadau oedd rhain yn gyffredinol.

Roeddwn yn falch iawn o weld testunau traethawd a oedd yn heriol a chyfoes. Roedd y traethodau nid yn unig yn berthnasol i'r modiwl ond hefyd yn annog y myfyrwyr i fynd ati i ymwneud â dadleuon cyfredol o amgylch newyddiaduraeth a'r cyfryngau yng Nghymru. Roedd y traethodau cryfaf felly wedi ymwneud a adroddiad diweddar y Sefydliad Materion Cymreig ac ymchwil cyfredol Ofcom. Roedd ambell un o'r traethodau hyn yn rhagorol ac yn aeddfed iawn ar gyfer myfyrwyr yr ail flwyddyn.

3. Y Broses Asesu

Roedd amrywiaeth o asesu ar y modiwlau gyda cyfuniad o dasgau traddodiadol academaidd (traethawd) ynghyd a thasgau dadansoddi (gwerthoedd newyddion) a thasgau creadigol (adroddiadau newyddiadurol). Yn sicr mae'r amrywiaeth yma o fewn modiwlau i'w ganmol, er efallai bod angen ystyried ffocws ychydig yn wahanol fel y trafodwyd uchod (gw. adran 1) ar draws y ddau fodiwl. Hoffwn hefyd gyflwyno sylwadau manylach ar dair agwedd benodol o'r asesu:

3.1. Adborth

Ar draws yr holl dasgau a'r ddau fodiwl roeddwn yn teimlo bod diffygion mewn cywiro gwallau iaith ar destun adroddiadau newyddiadurol a'r traethodau. Er bod paragraffau adborth y darlithwyr yn cyfeirio yn gyffredinol at wendidau gramadegol a chystrawen, nid oedd y gwallau hynny wedi eu hadnabod a'u nodi ar y testun ei hun. Teimlaf heb y cywiriadau hynny ar y testun ei bod hi'n anodd iawn i'r myfyrwyr ddysgu o'u camgymeriadau a gwella ar gyfer y tasgau nesaf. Roedd hyn yn llawer mwy amlwg ar un o'r modiwlau (Yr Ystafell Newyddion 1 – MC2617) na'r llall, er byddwn wedi hoffi gweld mwy o gywiro gwallau iaith ar y ddau fodiwl. Mae angen tynnu sylw'r myfyrwyr er enghraifft at wendidau treiglo, sillafu, cystrawen ac hefyd yr auto-correct i'r Saesneg. Er bod hyn yn gallu bod yn drafferthus yn Grademark, mae angen gwneud mwy o hyn. Nid argymell cosbi'r myfyrwyr yn fwy am eu gwallau iaith ydw i, ond yn hytrach bod y marcio yn tynnu sylw at y gwallau er mwyn i'r myfyrwyr wella eu sgiliau.

3.2. Meini Prawf

Rwy'n teimlo bod angen i'r tasgau newyddiadurol a'r tasgau gwerthoedd newyddion gael meini prawf unigryw a chllir eu hunain. Nid yw'r meini prawf cyffredinol ar gyfer traethodau yn rhoi digon o arweiniad i'r myfyrwyr o'r hyn y mae'r darlithwyr yn chwilio

amdano a sut y bydd y gwaith yn cael ei farcio. Rwy'n deall bod hyn eisoes ar y gweill ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf.

Ar fater cysylltiedig mae angen rhagor o eglurder ar sut y mae marciau y ddwy dasg a gyflawnir yn y profion dosbarth yn cyfrannu tuag at farc y asesiad hwnnw. Hynny yw, a ydi'r ddau yn 50% o farc yr aseiniad neu a yw'r erthygl yn cyfrif am fwy?

3.3. Ail-farcio

Cefais eleni ragor o dystiolaeth o ail-farcio gyda chopïau o ohebiaeth rhwng y darlithwyr. Er hynny rwy'n teimlo bod angen system gliriach er mwyn cofnodi'r holl drafodaethau arnoch. Cefais wybod beth oedd barn yr ail-farciwr, ond yn aml nid oedd cofnod o beth oedd barn y marciwr cyntaf o'r argymhellion hynny, ac wedyn pam y penderfynwyd ar y marc terfynol. Byddwn yn argymhell bod taflen benodol yn cael ei chreu er mwyn diwallu'r angen hwn.

4. Sylwadau o Flwyddyn i Flwyddyn

Roedd hi'n dda iawn gweld bod y pryderon fu gen i y llynedd am y traethodau wedi diflannu'n llwyr, roedd y traethodau eleni yn gyffredinol yn llawer mwy safonol ac, fel y soniais eisoes, yn ymwneud a ffynonellau a phynciau cyfoes iawn.

Er hynny roeddwn yn siomedig nad oedd mwy wedi ei wneud ar fater cywiro iaith y tynnais sylw ato y llynedd. A dweud y gwir, roeddwn yn teimlo ar un modiwl eleni (Yr Ystafell Newyddion 1) bod y cywiriadau iaith a'r adborth wedi lleihau ers y llynedd.

Yn wahanol i'r llynedd, nid oedd y modiwlau yn cyd-redeg ar draws lefel 5 a lefel 6 eleni, ac felly bod y drydedd flwyddyn yn colli allan ar ddarpariaeth Gymraeg. Er hynny rwy'n hapus iawn i glywed bod y ddarpariaeth yn ehangu y flwyddyn nesaf er mwyn ymgorffori modiwlau ar lefel 4 a 6, ac rwy'n edrych ymlaen i glywed mwy ac i ddarllen gwaith y myfyrwyr y flwyddyn nesaf.

5. Gweithgarwch Paratoi / Sefydlu (i Arholwyr Allanol newydd yn unig)

Amherthnasol.

6. Ymarfer Nodedig a'i Wella

Fel y llynedd mae'r cyfle i fyfyrwyr wella sgiliau trwy ymwneud â mwy nag un dasg sgwennu newyddiadurol (o dan amgylchiadau gwahanol) o fewn y modiwlau hyn i'w ganmol gan ei fod yn galluogi'r myfyrwyr i ymgorffori'r adborth a gaed a gweithredu arno.

Hoffwn hefyd nodi fy mod yn hoff iawn o'r ychwanegiadau a roddwyd i'r tasgau newyddion megis dyfeisio hashnod bachog, ac yn enwedig y dasg o gyfrannu lluniau i gyd-fynd a stori newyddion gan fod hyn yn gwneud i'r myfyrwyr ymwneud ag ystyriaethau newydd megis caniatâd a.y.b.

Fel rwyf eisoes wedi nodi, roedd pynciau cyfoes y cwestiynau traethawd i'w canmol gan eu bod yn galluogi'r myfyrwyr gorau i ymwneud â chyhoeddiadau academaidd ac adroddiadau cyfredol ar y diwydiant cyfryngau yng Nghymru.

O ran meysydd i'w gwella, fel y nodwyd eisoes mae angen nodi mwy o gywiriadau iaith ar waith y myfyrwyr, creu meini prawf unigryw i'r tasgau newyddiadurol, ac ystyried mwy o wahaniaethu rhwng y ddau fodiwl yma er mwyn sicrhau amrywiaeth profiad i'r myfyrwyr sy'n dilyn y ddau fodiwl.

7. Trosolwg o'r Penodiad (i Arholwyr Allanol sy'n ymddeol, yn unig)

Amherthnasol.

8. Rhestr Wirio'r Adroddiad Blynyddol

Cynhwyswch sylwadau priodol yn Adrannau 1-7 uchod ar gyfer unrhyw ateb 'x'.

		✓	x	Ddim yn gymwys
Gwybodaeth am y Rhaglen/Cwrs				
8.1	A gawsoch chi ddigon o wybodaeth am gynnwys, canlyniadau dysgu ac asesiadau'r Rhaglen?	✓		
8.2	A gawsoch chi gais i roi'ch sylwadau ar unrhyw newid i'r asesu ar y Rhaglen?		x	
Papurau Cwestiwn Drafft yr Arholiadau				
8.3	A ofynnwyd i chi gymeradwyo'r holl bapurau arholiad a oedd yn cyfrannu i'r dyfarniad terfynol?			✓
8.4	A oedd natur, rychwant a lefel y cwestiynau yn foddhaol?			✓
8.5	A wnaed trefniadau addas i ystyried eich sylwadau?			✓
Marcio'r Sgriptiau Arholiad				
8.6	A gawsoch chi ddigon o sgriptiau i allu asesu a oedd y marcio mewnol a'r dosbarthu ar y marciau yn briodol ac yn gyson?			✓
8.7	A oedd safon gyffredinol a chysondeb y marcio yn briodol?			✓
8.8	A farciwyd y sgriptiau mewn ffordd a'ch galluogai chi i weld y rhesymau dros ddyfarnu'r marciau a roddwyd?			✓
8.9	A oeddech chi'n fodlon ar safon a chysondeb y marcio gan yr arholwyr mewnol?			✓
8.10	Yn eich barn chi, a gawsoch chi gyfle i astudio croestoriad digonol o'r gwaith a wnaed gan yr ymgeiswyr ac a gyfrannodd at yr asesiad terfynol?			✓
Gwaith Cwrs ac Asesiadau Ymarferol				
8.11	A oedd y dewis o waith cwrs a/neu asesiadau ymarferol yn briodol?	✓		
8.12	A gawsoch chi weld sampl briodol o'r gwaith cwrs a/neu asesiadau ymarferol yn briodol?	✓		
8.13	A oedd dull yr asesu, a'i safon gyffredinol, yn briodol?	✓		
8.14	A gaiff y myfyrwyr ddigon o adborth ar eu gwaith asessedig?		x	
Archwiliadau Clinigol (os ydynt yn gymwys)				
8.15	A wnaed trefniadau boddhaol i gynnal asesiadau clinigol?			✓
Samplu Gwaith				
8.16	A gawsoch chi ddigon o amser i ystyried samplau o'r gwaith asessedig?	✓		
Cyfarfod y Bwrdd Arholi				
8.17	A oeddech chi'n gallu dod i'r cyfarfod o'r Bwrdd Arholi?		x	
8.18	A gafodd y Bwrdd Arholi ei gynnal yn briodol, yn unol â'r gweithdrefnau sefydledig ac mewn ffordd a oedd yn eich bodloni chi?			✓

		✓	✘	Ddim yn gymwys
8.19	Mae Prifysgol Caerdydd yn cydnabod cyfraniad cynhyrchiol yr Arholwyr Allanol at y broses asesu ac yn enwedig at waith y Bwrdd Arholi. A gawsoch chi ddigon o gyfle i drafod y Rhaglen, ac unrhyw bryderon na chawsant eu datrys, gyda'r Bwrdd Arholi neu ei swyddogion?			✓
Y Cyfarfod o'r Cyd-Fwrdd Arholi (os yw'n gymwys)				
8.20	A ddaethoch chi i Fwrdd Arholi Cyfun (h.y. un a alwyd i ystyried dyfarnu graddau cydanrhydedd)?			✓
8.21	Os daethoch, a gawsoch chi wybod am y gweithdrefnau a'r confensiynau ar gyfer dyfarnu graddau cydanrhydedd?			✓
8.22	A gynhaliwyd y Bwrdd Arholi Cyfun yn unol â'i reolau?			✓

Anfonwch yr adroddiad hwn yn ôl, yn fformat Microsoft Word os gallwch chi, drwy e-bost i:

ExternalExaminers@caerdydd.ac.uk

Dylech chi anfon eich ffurflen hawlio ffioedd a threuliau yn electronig i'r cyfeiriad e-bost uchod neu ar ffurf copi caled at:

Clive Brown, Swyddog y Gofrestrfa, Y Gofrestrfa a Gwasanaethau Academaidd, Prifysgol Caerdydd, Tŷ McKenzie, 30-36 Newport Road, Caerdydd, CF24 0DE